

ATODLEN 2

Monitro

RHAN 1

Monitro ar gyfer paramedrau Grŵp A

Samplu

1.—(1) Rhaid i awdurdod lleol fonitro ar gyfer paramedrau Grŵp A yn unol â'r Rhan hon.

(2) Ystyr “monitro ar gyfer paramedrau Grŵp A” yw samplu ar gyfer pob paramedr a restrir yng ngholofn 1 o Dabl 1 o dan yr amgylchiadau a restrir yn y cofnod cyfatebol ar gyfer y paramedr hwnnw yng ngholofn 2 o'r Tabl hwnnw er mwyn—

- (a) canfod pa un a yw'r dŵr yn cydymffurfio â'r crynodiadau neu'r gwerthoedd yn Atodlen 1 ai peidio;
- (b) darparu gwybodaeth am ansawdd organoleptig a microbiolegol y dŵr; ac
- (c) cadarnhau pa mor effeithiol fu'r driniaeth a roddwyd i'r dŵr, gan gynnwys y diheintio.

Tabl 1

Paramedrau Grŵp A

Paramedrau	Amgylchiadau
Alwminiwm	Os y'i defnyddir fel cemegyn trin dŵr
Amoniwm	Os defnyddir cloramineddio
<i>Clostridium perfringens</i> (gan gynnwys sborau)	Pan fo'r dŵr yn tarddu o ddyfroedd wyneb, neu y dylanwedir arno gan ddyfroedd wyneb
Bacteria coliform	Ym mhob cyflenwad
Cyfrifau cytreffi	Ym mhob cyflenwad
Lliw	Ym mhob cyflenwad
Dargludedd	Ym mhob cyflenwad
<i>Escherichia coli</i> (<i>E. coli</i>)	Ym mhob cyflenwad
Crynodiad ïonau hydrogen	Ym mhob cyflenwad
Haearn	Os y'i defnyddir fel cemegyn trin dŵr
Manganîs	Pan fo'r dŵr yn tarddu o ddyfroedd wyneb, neu y dylanwedir arno gan ddyfroedd wyneb
Nitrad	Os defnyddir cloramineddio
Nitraid	Os defnyddir cloramineddio
Arogl	Ym mhob cyflenwad
<i>Pseudomonas aeruginosa</i>	Yn achos dŵr mewn poteli neu gynwysyddion yn unig

Statws This is the original version (as it was originally made).

Paramedrau	Amgylchiadau
Blas	Ym mhob cyflenwad
Cymylogrwydd	Ym mhob cyflenwad

Amllder samplu

2. Rhaid cyflawni gwaith samplu ar gyfer paramedrau Grŵp A mor aml ag a bennir yn Nhabl 2.

Tabl 2

Amllder samplu ar gyfer paramedrau Grŵp A

<i>Cyfaint m³/diwrnod</i>	<i>Amllder samplu fesul blwyddyn</i>
≤ 10	1
> 10 ≤ 100	2
> 100 ≤ 1,000	4
> 1,000 ≤ 2,000	10
> 2,000 ≤ 3,000	13
> 3,000 ≤ 4,000	16
> 4,000 ≤ 5,000	19
> 5,000 ≤ 6,000	22
> 6,000 ≤ 7,000	25
> 7,000 ≤ 8,000	28
> 8,000 ≤ 9,000	31
> 9,000 ≤ 10,000	34
> 10,000	4 + 3 am bob 1,000 m ³ /diwrnod o gyfanswm y cyfaint (gan dalgrynnu i fyny i'r lluosrif agosaf o 1,000 m ³ /diwrnod)